DEFNYDDIWCH EICH PROFIAD I LUNIO GOFAL CANSER YNG NGHYMRU

NI YW MACMILLAN. CYMORTH CANSER

Mae profiadau cleifion yn gyrru gwelliant

Mae Cymorth Canser Macmillan yn credu y dylai gwrando ar brofiadau cleifion a gweithredu arnynt fod wrth graidd sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio.

Dyma pam buom yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i gynnal yr Arolwg Profiad Cleifion Canser cenedlaethol cyntaf i gael gwybod rhagor am brofiad cleifion o ofal canser yng Nghymru.

Cymerodd dros 7,300 o bobl ran yn yr arolwg.

Mewn gwirionedd, cymerodd pob ysbyty cymwys yng Nghymru ran, felly mae'n debygol y bydd eich ysbyty lleol chi wedi cymryd rhan.

Gofynnodd yr arolwg am eu barn am y gofal a roddodd eu meddyg teulu, am eu gofal fel claf (yn yr ysbyty) a beth ddigwyddodd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Roedd yn cynnwys y pethau sy'n bwysig i'r rhan fwyaf o bobl.

Mae'r niferoedd mawr o bobl a ymatebodd i'r arolwg yn ei gwneud hi'n amlwg fod cleifion canser yng Nghymru eisiau dweud eu dweud.

Gallwch ddarllen canlyniadau'r arolwg cenedlaethol diweddaraf a'r adroddiadau ar gyfer pob bwrdd/ymddiriedolaeth iechyd yn Saesneg neu yn Gymraeg ar www.quality-health.co.uk.

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch gael crynodeb gweithredol o'r adroddiad drwy gysylltu â Macmillan Cymru ar 01656 867960.

"Mae fy mhrofiad a'm gwybodaeth am ofal canser yng Nghymru'n helpu i wneud newidiadau cadarnhaol. Dwi'n gweithio o hyd gyda Macmillan Cymru ac wedi ymddangos mewn nifer o'u hymgyrchoedd yn ogystal â mynychu cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser yn y Cynulliad Cenedlaethol yn gyson i rannu fy mhrofiadau."

Peter Thomas, o Sir Gaerfyrddin, sydd wedi bod yn rhannu ei brofiadau ar ran Macmillan ar ôl cael diagnosis lymffoma nad yw'n Hodgkin's yn 2007.

"Pobl sydd wedi cael profiad uniongyrchol o rywbeth yw'r bobl orau i siarad am eu profiadau. Fy neges i yw bod angen trin y person ac nid yw symptomau. Mae'r gallu gan bawb i wneud newidiadau - peidiwch ag ofni dweud eich barn os nad yw pethau'n iawn."

Mae Stuart Stevenson, o Borthaethwy, Ynys Môn, yn Gadeirydd cangen Gogledd Cymru o Fforwm Cleifion Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru. Mae wedi bod yn siarad am ei brofiadau fel claf canser y coluddyn â staff meddygol o dan hyfforddiant ac mewn cynadleddau meddygol ledled Prydain ers 2003.

GWNEWCH WAHANIAETH I WASANAETHAU CANSER YN EICH ARDAL

Mae sawl ffordd y gall pobl sydd wedi'u heffeithio gan ganser gymryd rhan a helpu i ddylanwadu er mwyn newid a gwella gwasanaethau canser ledled Cymru.

- Gofynnwch a oes grŵp cleifion yn eich ardal chi
- Cymerwch ran yn Fforymau Cleifion Rhwydweithiau Canser Gogledd neu Dde Cymru
- Dewch yn Llais Canser Macmillan (www.macmillan.org.uk/cancervoices)
- Rhannwch eich stori yn y cyfryngau
- Ymunwch â'ch Cyngor Iechyd Cymunedol

Pe hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am sut gallwch chi gymryd rhan a defnyddio eich profiadau i wella gwasanaethau canser yn eich ardal chi, **cysylltwch â'ch Cydlynydd Cymryd Rhan Macmillan.**

Yn Ne Cymru, cysylltwch ag Amy Mason ar 01656 867960 neu e-bostiwch amason@macmillan.org.uk

Yng Ngogledd Cymru cysylltwch â Ruth Daniels ar 01691 772936 neu e-bostiwch rdaniels@macmillan.org.uk